16eg o FEDI 2021

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16eg o FEDI 2021
AR LEIN AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Rory Francis - Cadeirydd
Erwyn Jones
Mark Thomas
Ronwen Roberts
Bedwyr Gwilym
Gwenlli Evans

1. Ymddiheuriadau:
Cynghorwyr:
Glyn Daniels
Annwen Daniels

2.DATGAN DIDDORDEB
**Cynghorydd Gwenlli Evans (eitem 10 CCC Antur Stiniog)**
**Cynghorydd Ronwen Roberts (eitem 10 CCC Antur Stiniog)**

**3. Caeau Chwarae-arolwg blynyddol RoSPA**
Bu i`r Pwyllgor drafod adroddiadau blynyddol RoSPA.
Golff Gwirion- gwaith i rhoi yr offer at i gilydd ddim wedi neud eto, ond ar rhestr waith swyddog cynnal a chadw.
Y Parc – Nifer o pwyntiau risg uchel wedi codi ar Trywydd Gweithgaredd, pyst pren yn pydru. Mae pwyntiau risg canolig ynglŷn ar header block.
Nodwyd fod dyfynbrisiau i neud y gwaith, sydd yn risg uchel a canolig, gan GL Jones yn dod i gyfanswm o £9,000. Mae y cyfanswm yn cynnwys wet pour i Cae Gild ond ddim yn cynnwys Trywydd Gweithgaredd newydd ir Parc, dim ond gwaith trwsio, a dim yn cynnwys pyst newydd ir gwifren sip yn Cae Bryn Coed, dim ond gwaith archwilio.

**Argymell:** Derbyn yr wybodaeth. Yn y flwyddyn arianol yma y Parc sydd yn cael y gwariant uwch. Y Pwyllgor yn argymell fod y gwaith ar y Birdsnest swing ac dyfynbris ar y Trywydd Gweithgaredd yn cael i blaenoriaethu.
Offer angen i beintio cyn gynted a phosib.
Os oes cyllideb ar ôl, newid pyst pren y wifren sip yn Cae Bryn Coed., am rhai plastic.
Nodwyd fod archeb i fewn gyda GL Jones am y pyst camu a siglen birds nest.

**4. Adroddiadau Misol y Caeau Chwarae**
Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau caeau chwarae.
Llawer o sbwriel yn y caeau chwarae, er bod Criccieth Cleaning yn gwagio y binniau pob dydd Mercher.
Gwair angen i dorri yn rhai or caeau chwarae.
**Argymell:** I dderbyn yr adroddiadau. Gofyn i Dref Werdd os oes modd cydweithio gyda`r problem sbwriel a gyrru llythyr ir ysgolion lleol yn anog plant i beidio taflu sbwriel.
Owain Aeron wedi torri gwair y caeau i gyd erbyn diwedd mis Medi.

**5. Rhestr Waith Swyddog Cynnal a Chadw (Medi 2021)**

Bu ir Pwyllgor drafod y rhestr. Nifer o waith wedi cael i adio ir rhestr yn ail wythnos y mis.
**Argymell:** I dderbyn yr wybodaeth.

**6. Y Parc Sglefrio**

Bu i`r Pwyllgor drafod y gwaith sydd angen i wneud yn y Parc Sglefrio. Mae Dyfynbris o £ 64,000 wedi cyrraedd ynglŷn a offer newydd (mae hyn yn dyfynbris canolig) a un dyfynbris o £ 3358.09, + TAW am y gwaith trwsio, yn cynnwys rhoi 2 fin newydd i fewn yn y parc.
Trafodwyd os oes gwariant am offer newydd, hwyrach dylai y Cyngor edrych i newid lleoliad y Parc Sglefrio, a edrych ar parc concrit, sydd yn costio lot mwy, ond bydd y costau gwaith cynnal a chadw yn mynd i fod yn isel.
Mae y lleoliad y parc sglefrio rŵan, ar gyrrion y dref, o bosib yn adio at yr ymddygiad gwrth gymdeithasol a mae rhaid croesi ffordd brysur i fynd at y safle. Bosib edrych ar lleoliad fel y Parc?
Bydd rhaid cael ymgynghoriaeth gyda ieuenctid a trigolion lleol, fydd yn cymryd rhai misoedd.

**Argymell:** I drafod y posibilrwydd o offer a lleoliad newydd o yn y cyfarfod arferol nesaf. I dderbyn y dyfynbris am y gwaith trwsio ( gan dynnu £1279.96 am y binniau newydd oddi ar y dyfynbris gan fod y gwaith yma eisoes wedi neud)

**7. Diweddariad Tir Tan y Manod**

Bu i`r Clerc rhoi diweddariad ir Pwyllgor. Bod y ci wedi cael i symud, y sied wedi cael i dynnu lawr, a arwyddion "Dim Cwn" wedi eu gosod.
Mae y Cyngor wedi derbyn grant gan Lleoedd Lleol / Cadw Cymru yn Daclus.
Mae y planhigion yn cyrraedd y swyddfa o fewn pythefnos. Bydd rhaid penderfynu pwy sydd yn mynd i fod yn gyfrifol am eu gofal tan mae nhw yn cael i plannu. Mae nifer o grantiau newydd ar gael ar funud gan gynnwys gan y Woodland Grants gan Trafnidiaeth Cymru.

**Argymhell**: Bydd rhaid trefnu gweithgor. Cael cynllun gweithredu a ymgynghori gyda ysgolion a tai lleol. Y cynghorwyr yn mynd i gyfarfod ar y safle am 5.30yh dydd Gwener 24 o Fedi 2021. Cyfarfod cyhoeddus ar lein ar 30fed o Fedi 2021. Cynghorydd Rory Francis i ofyn i Dref Werdd os oes modd gweld y cynlluniau oedd gan nhw ir tir. Cynghorydd Gwenlli Evans yn mynd i ofyn i Ysgol Manod os oes gan yr ysgol diddordeb yn y project. Bydd rhaid ir plannu gael wneud yn ystod yr Hydref Cynghorydd Marc Thomas yn mynd i edrych ar ôl y planhigion yn ei rhandir tan y gwaith plannu.

**8. Cais Cynllunio**

Rhif Cais Cynllunio C21/0746/03/YA
Ymgeisydd / Applicant Mr Peter Humphreys
Caer Y Fran, Blaenau Ffestiniog, LL41 4AL
Adeilad amaethyddol i gadw offer
Linc

https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.htmlfa=getApplication&id=32118
**Argymhell**: Dim Gwrthwynebiad

**9. Anfoneb Viking**

**Argymhell:** I dalu yr anfoneb

**10. Unrhyw Fater Brys**

CCC yn adeilad Antur Stiniog

Bu i Cynghorydd Gwenlli Evans a Cynghorydd Ronwen Roberts ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod.

Bu i`r Clerc cael gwybod fod y system CCC yn adeilad Antur Stiniog ddim yn gweithio. Mae Kevin wedi bod yna yn cael golwg. Cost i drwsio ydi £485 am recorder newydd + £25.00 llafur. Mae Antur Stiniog wedi cynnig £ 100 at y gwaith.

**Argymhell:** I gytuno i`r gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 yh.